Digidol 2030

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru - wedi'i ddiweddaru

2026



Jisc

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad 3

2.0 Cyd-destun dysgu digidol 6

2.1 Cyflogaeth ddigidol a sgiliau digidol 6

2.2 Y sector ôl-16 yng Nghymru 8

2.3 Yr angen am newid a datblygiadau ym maes dysgu digidol 10

2.4 Cysondeb strategol 14

2.5 Cyflwyno fframwaith Digidol 2030 15

3.0 Gweledigaeth a Nodau 16

3.1 Rhanddeiliaid allweddol 17

4.0 Amcanion 18

Maes Amcanion 1: Arweinyddiaeth a Rheoli 20

Maes Amcanion 2: Cyflwyno ac asesu'r cwricwlwm 20

Maes Amcanion 3: Ehangu cyfranogiad a chymorth dysgu 21

Maes Amcanion 4: Ymgysylltu â chyflogwyr a chymunedau 21

Maes Amcanion 5: Datblygu staff 22

Maes Amcanion 6: Systemau a seilwaith menter 22

5.0 Gweithredu 23

5.1 Gwreiddio Digidol 2030 23

5.2 Monitro cynnydd ac asesu effaith 26

6.0 Ar ôl 2030 27

Tachwedd 2026

Mae'r ddogen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

1.0 Cyflwyniad

Fframwaith strategol 10 mlynedd ar gyfer dysgu digidol a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 yw **Digidol 2030**. Mae'n berthnasol i sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Yn y ddogfen hon, defnyddiwn y term "sector ôl-16" fel ffordd fer o ddisgrifio'r darparwyr hyn, er cysondeb â'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y fersiwn wreiddiol o Digidol 2030.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am Digidol 2030 o Lywodraeth Cymru i Medr ym mis Awst 2024.

Pam mae'r ddogfen hon wedi cael ei diweddaru yn 2026?

Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd i'r cyd-destun a'r dirwedd ar gyfer dysgu digidol ers 2019, gan gynnwys:

- Y newid cyflym i 'addysg o bell ar frys', a oedd yn ofynnol yn ystod anterth pandemig Covid-19 a'r cyfnod adfer dilynol (2020-2021), a phennu gofynion allweddol ar gyfer cynhwysiant digidol.
- Argaeledd offer deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol (ers diwedd 2022); goblygiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artiffisial wrth addysgu, dysgu ac asesu ac er mwyn cefnogi tegwch digidol.
- Daeth Medr: y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru yn weithredol ar 1 Awst 2024 ac mae bellach yn gyfrifol am ddysgu digidol yng nghyd-destun ehangach y sector addysg drydyddol.

Roedd y ddogfen wreiddiol yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad canol tymor gyda'r bwriad o adnewyddu'r fframwaith. Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r sector wedi datblygu ers 2019 ac yn pennu blaenoriaethau ar gyfer gweddill cyfnod y fframwaith.

Partneriaeth cyflawni Digidol 2030

Mae grantiau blynyddol gan Lywodraeth Cymru (tan fis Gorffennaf 2024) a Medr (o fis Awst 2024 ymlaen) yn galluogi cymorth gan Jisc ar gyfer Digidol 2030 a blaenoriaethau strategol ar gyfer dysgu digidol yng Nghymru.

Mae Jisc wedi darparu adnoddau i ddarparwyr eu defnyddio yn eu sefydliadau eu hunain; wedi cynnig cyngor a chyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol (gyda mewnbwn gan ei arbenigwyr ledled y DU); ac wedi cydgysylltu gweithgareddau ymchwil. Mae Jisc hefyd yn helpu Medr i ddatblygu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi digidol a dulliau o ymdrin â dysgu digidol yng Nghymru yn y dyfodol.

Ymgysylltu a'r sector a rhanddeiliaid

Helpodd Jisc y sector i gynnig mewnbwn i'r broses o gyd-greu Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion y fframwaith gwreiddiol. Cyn adolygu'r ddogfen fframwaith ar gyfer y diweddariad hwn, gofynnodd Medr i Jisc ymgysylltu â darparwyr dysgu a rhanddeiliaid allweddol er mwyn:

- Ystyried cynnydd hyd yma
- Sicrhau bod Digidol 2030 yn berthnasol ac yn werthfawr i'r sector o hyd
- Canfod unrhyw ddiweddariadau hanfodol sy'n ofynnol
- Cynnig blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod sy'n weddill.

Caiff allbynnau o weithgareddau ymgysylltu Jisc, gan gynnwys safbwyntiau ar gynnydd hyd yma a chyfres o straeon defnyddwyr, eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ddiwygiedig hon. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn yn ein hadolygiad, ochr yn ochr â thystiolaeth y mae Medr wedi'i chael gan ddarparwyr dysgu drwy ein prosesau cyllid grant digidol.

Rydym hefyd wedi achub ar gyfleoedd i atgyfnerthu cysondeb rhwng Digidol 2030 a dull strategol ehangach Medr. Rydym wedi pwysleisio egwyddorion sylfaenol cynnwys dysgwyr a staff mewn prosesau gwneud penderfyniadau, sy'n cyd-fynd â Chod Ymgysylltu â Dysgwyr Medr a'i waith ar hyrwyddo cydweithio ag undebau llafur.

Yr hyn rydym wedi'i gadw o'r fframwaith gwreiddiol:

- Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion y ddogfen wreiddiol yw asgwrn cefn y fframwaith; cafodd yr elfennau hyn eu cyd-greu â darparwyr dysgu a rhanddeiliaid allweddol a chânt eu defnyddio gan ddarparwyr yn eu gwaith cynllunio. Bwriadwyd iddynt fod yn ddigon strategol i bara drwy gydol oes y fframwaith, ac mae adborth gan ddarparwyr yn awgrymu bod hyn wedi bod yn llwyddiannus. Yr unig newid sydd wedi cael ei wneud yw ymgorffori cyfeiriad penodol at ddeallusrwydd artiffisial yn Amcan 4.4.
- I gefnogi parhad, mae cwmpas Digidol 2030 wedi'i gyfyngu i addysg bellach, prentisiaethau (heb gynnwys gradd-brentisiaethau) a darpariaeth dysgu oedolion o hyd.
- Caiff brand, logo ac egwyddorion dylunio craidd Digidol 2030 eu defnyddio er mwyn rhoi hunaniaeth glir i allbynnau a gyhoeddir yn sgil unrhyw weithgareddau dilynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Digidol 2030.

Ble rydym arni nawr?

Ar y cyfan, mae llawer o'r amodau galluogi ar gyfer dysgu digidol bellach ar waith. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer dulliau cyflwyno digidol. Erbyn hyn, mae Digidol 2030 yn fframwaith mwy aeddfed ac nid oes angen mwyach iddo argyhoeddi'r sector bod dysgu digidol yn bwysig.

Mae'r ymrwymiad ymhlith arweinwyr i'w weld yn glir a chaiff ‘digidol’ ei wreiddio’n gynyddol mewn arferion cyflwyno beunyddiol. Ceir diwylliant cynyddol o gydweithio, arloesi a rhannu'r hyn a ddysgir; yn arbennig mewn perthynas â threialu a mabwysiadu technolegau ac offer digidol newydd.

Yn gyffredinol, mae profiad digidol dysgwyr yn un cadarnhaol, ond mae'n bosibl nad yw'r profiad hwn yn gwbl gydgysylltiedig a chyson rhwng gwahanol gyrsiau a rhaglenni. Mae meithrin arferion digidol sy'n fwy cydlynol, cyson a chynaliadwy – ym mhob rhan o sector amrywiol – yn her allweddol ar gyfer cam nesaf Digidol 2030.

Edrych tua’r dyfodol

Wrth i fframwaith Digidol 2030 ddechrau ar ei gyfnod olaf, rydym wedi amlinellu sut rydym yn bwriadu monitro cynnydd ac wedi awgrymu ffynonellau posibl o dystiolaeth berthnasol.

Gan edrych ymhellach ymlaen, rydym wedi awgrymu uchelgais ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy i Medr ddatblygu dull mwy cyfannol o ymdrin â dysgu digidol yn y sector addysg drydyddol (ar ôl 2030) ac wedi nodi rhai ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar waith cynllunio yn y dyfodol.

2.0 Cyd-destun dysgu digidol

2.1 Cyflogaeth ddigidol a sgiliau digidol

Roedd dogfen wreiddiol Digidol 2030 yn nodi uchelgais i baratoi dysgwyr ar gyfer gweithle'r dyfodol; sicrhau eu bod yn dysgu'r sgiliau digidol ac yn cael y profiadau o dechnoleg i allu gweithio ag offer a thechnolegau digidol; a datblygu nodweddion craidd hyblygrwydd a'r gallu i addasu. Nid yw'r uchelgais hwn wedi newid.

Ochr yn ochr â datblygiadau technolegol posibl, roedd Digidol 2030 yn adleisio rhagfynegiadau y byddai galluoedd unigryw a sgiliau arbenigol bodau dynol yn cael eu parchu a'u trysori'n fwy mewn byd cynyddol awtomataidd. Mae tystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg yn cadarnhau bod disgwyl i hyn ddigwydd o hyd. Mae *The Skills Imperative 2035* yn nodi chwe 'sgìl cyflogaeth hanfodol' a ddaw'n gynyddol pwysig ym mhob sector erbyn 2035, gan gynnwys cyfathrebu; cydweithio; llythrennedd gwybodaeth; trefnu a chynllunio; datrys problemau a gwneud penderfyniadau; a meddwl yn greadigol. Mae angen i ddysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau dynol hyn ochr yn ochr â chymwyseddau digidol a thechnegol.

Yn 2017, rhagfynegodd astudiaeth a ariannwyd gan NESTA gynnydd mewn awtomeiddio ac yn y defnydd o ddysgu peirianyddol a fydd yn newid natur swyddi ar gyfer cyflogeion dynol. Ddim ond naw mlynedd yn ddiweddarach, mae'r dyfodol hwnnw a ragwelwyd yn dod yn wir. Mae'n bosibl mai argaeledd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a'r ffaith bod galluoedd y dechnoleg hon yn parhau i ddatblygu'n gyflym iawn yw un o'r datblygiadau technolegol mwyaf arwyddocaol ers 2019.

Mae sefydliadau ledled y byd yn archwilio sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn effeithiol gan gynnal goruchwyliaeth briodol gan fodau dynol ar yr un pryd. Mae adroddiad gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain a gyhoeddwyd yn 2026 ar gau'r bwlch o ran mabwysiadu deallusrwydd artiffisial yn y DU yn tynnu sylw at angen craidd i ddatblygu sgiliau a hyder y gweithlu ar bob lefel; o lythrennedd sylfaenol ym maes deallusrwydd artiffisial i arweinyddiaeth a galluoedd arbenigol.

Caiff arbenigedd Cymru ym meysydd arloesedd ag AI ei gydnabod, wrth i hwb rhanbarthol Canolfan Genedlaethol Hartree ar gyfer Arloesi Digidol ym Mhrifysgol Caerdydd, a ariennir gan UKRI, gynyddu'r cysylltiadau rhwng diwydiant (yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig) a gwaith ymchwil academaidd. Mae prifysgolion Bangor a Chaerdydd wedi cyfrannu at wella ansawdd data Cymraeg a ddefnyddir i hyfforddi modelau AI er mwyn gwneud y dechnoleg fyd-eang hon yn fwy effeithiol o ran cefnogi defnydd o'r Gymraeg. Rhoddwyd sylw ar lefel ryngwladol i'r ffordd y caiff amlieithrwydd ei ddefnyddio mewn gwasanaethau digidol yng Nghymru yn ystod 2026 pan aeth UNESCO a Llywodraeth Cymru ati ar y cyd i lansio pecyn cymorth ymarferol sy'n cynnwys arferion da o Gymru.

Mae enghreifftiau ar gael o ddiwydiant yn gwneud ymrwymiadau arwyddocaol i fuddsoddi'n barhaus yn economi Cymru, gan greu cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr sy'n meddu ar sgiliau priodol, gan gynnwys:

- Cynlluniau ar gyfer ardaloedd twf AI a chanolfannau data.

- Disgwylir i'r Porthladd Rhydd Celtaidd, sef partneriaeth rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn y De-orllewin, arwain at fuddsoddiad gwerth mwy nag £8 biliwn ac 11,500 o swyddi dros gyfnod o 25 mlynedd.
- Mae AI yn ffocws clir ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, y disgwylir iddo ddenu buddsoddiad gwerth £25 miliwn gan y llywodraeth a chreu 3,000 o swyddi erbyn 2030.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Sgiliau i Gymru a fydd yn sicrhau cysondeb rhwng darpariaeth sgiliau, cymwysterau ac addysg alwedigaethol, ac anghenion economaidd yn y presennol a'r dyfodol. Daeth Uwchgynhadledd Sgiliau ym mis Hydref 2026 â chyflogwyr, darparwyr, rhanddeiliaid a llunwyr polisïau ynghyd i drafod yr hyn y mae ar Gymru ei angen o'i system sgiliau.

Roedd rhagfynegiadau gan Fforwm Economaidd y Byd yn 2025 yn pwysleisio'r effaith 'drawsnewidiol' a ragwelir yn sgil technolegau digidol, gan gynnwys AI a phrosesu gwybodaeth; roboteg ac awtomeiddio; a chynhyrchu, storio a dosbarthu egni. Mae gwaith ymchwil gan y Productivity Institute yn tynnu sylw at y potensial ar gyfer cymhwyso sgiliau digidol fel rhan allweddol o'r trawsnewid gwyrdd ac ailddylunio prosesau i integreiddio technolegau gwyrdd yn well er mwyn helpu i droi buddsoddiad amgylcheddol yn welliannau mesuradwy ar lefel weithredol ac o ran cynhyrchiant.

Er bod y papur yn pwysleisio mai rolau sy'n gysylltiedig â thechnoleg yw'r swyddi sy'n tyfu gyflymaf mewn termau canrannol, ceir hefyd ffocws cynyddol ar rolau sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid gwyrdd a'r trawsnewid i ynni adnewyddadwy o fewn economi Cymru. Mae'r cynlluniau i ddatblygu Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd yn y Canolbarth yn manteisio ar arbenigedd Prifysgol Aberystwyth mewn technoleg amaethyddol, diogeledd bwyd, gwyddor planhigion, gweithgynhyrchu bio-seiliedig, bioburo a gwyddor amgylcheddol.

Ni ddisgwylir i'r dyfodol fod yn gyfan gwbl seiliedig ar AI a robotiaid. Bydd gwybod pryd i ddefnyddio llai o AI a herio ei allbynnau yr un mor bwysig â gwybod sut i'w ddefnyddio'n effeithiol.

Mae llythrennedd ym maes AI yn rhywbeth sy'n dal i ddatblygu ac sy'n hynod berthnasol i fyd addysg, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion sydd eisoes yn bodoli megis meddwl yn feirniadol, adnabod tuedd a chanfod ffynonellau gwybodaeth dibynadwy. Yng Nghymru, mae Medr wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiad safbwynt ar AI mewn addysgu a dysgu erbyn mis Mawrth 2027.

2.2 Y sector ôl-16 yng Nghymru

Yn y ddogfen hon, defnyddir y term ‘ôl-16’ i gwmpasu:

- Addysg bellach
- Rhaglenni prentisiaeth ar lefelau 2 i 5 (heb gynnwys gradd-brentisiaethau)
- Dysgu oedolion a'r gymuned

Mae hyn yn adlewyrchu'r gynulleidfa graidd wreiddiol ar gyfer Digidol 2030 yn fras. Er bod Medr bellach yn gyfrifol am y sector addysg drydyddol ehangach, nid yw cwmpas y fframwaith hwn a oedd eisoes yn bodoli wedi cael ei ehangu, felly nid yw'n cynnwys sefydliadau addysg uwch na chweched dosbarth ysgolion.

Addysg bellach	**Prentisiaethau**	**Dysgu oedolion yn y gymuned**
Sefydliadau (colegau) nid-er-elw annibynnol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal cyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n amrywio o Lefel Mynediad i addysg uwch.	Darparwyr sy'n cynnal rhaglenni prentisiaeth craidd ar lefelau 2 i 5. Mae'r sector hwn yn cynnwys colegau, darparwyr hyfforddiant annibynnol, elusennau ac awdurdodau lleol. Nid yw darpariaeth gradd-brentisiaethau wedi'i chynnwys.	Partneriaethau sydd fel arfer yn cynnwys awdurdodau lleol, colegau a sefydliadau eraill, ac sy'n cynnal rhaglenni dysgu oedolion rhan-amser sydd wedi'u lleoli yn y gymuned fel arfer.
Cyfanswm o 107,680 o ddysgwyr yn 2024/25 gan gynnwys: • 57,870 mewn darpariaeth addysg bellach ran-amser • 49,810 mewn darpariaeth amser llawn	46,140 o brentisiaid yn 2024/25	13,075 o ddysgwyr ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned a gynhelir gan awdurdodau lleol yn 2024/25
Roedd 6,125 o staff wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ym mis Mawrth 2026 fel athrawon addysg bellach	Roedd 3,279 o staff wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ym mis Mawrth 2026 fel ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, sy'n cynnwys aseswyr prentisiaethau	Roedd 328 o staff wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ym mis Mawrth 2026 fel ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gyflogir gan awdurdodau lleol

Daeth y ffigurau yn y tabl hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Dysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau neu ddysgu cymunedol o fis Awst 2024 i fis Gorffennaf 2025; StatsCymru.

- Ystadegau Blynyddol ar y Gweithlu Addysg (addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol); Cyngor y Gweithlu Addysg.

Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad digidol dros y blynyddoedd diwethaf yn y sectorau sydd o fewn cwmpas Digidol 2030 wedi cael ei gyfeirio at sefydliadau addysg bellach. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad ymlaen llaw gwerth £8 miliwn o gyllid cyfalaf dros dair blynedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer menter Galwad i Weithredu amlflwyddyn ar ddysgu digidol mewn addysg bellach (a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2025). Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi cyllideb gyfalaf ddigidol flynyddol i Medr ar gyfer sefydliadau addysg bellach.

Yn ystod 2025/26 a 2026/27, mae Medr wedi dechrau ar waith archwilio er mwyn cynyddu cyfranogiad darparwyr hyfforddiant annibynnol mewn mentrau dysgu digidol. Byddwn yn parhau i ystyried sut y gallai gwaith gyda darparwyr prentisiaethau ddatblygu yn y dyfodol pan fydd rhaglen brentisiaethau newydd Medr ar gyfer Cymru wedi cael ei chyflwyno (o 1 Awst 2027 ymlaen).

Tra bo Digidol 2030 yn dal yn berthnasol i rai agweddau ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, rydym yn cydnabod bod darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn wynebu rhai heriau penodol o ran ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â'r math hwn o fenter strategol. Tynnodd adroddiad thematig gan Estyn yn 2025 sylw at y ffaith mai cyfran gymharol fach o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, sef "*tua 5-15%... yn nodweddiadol*", sy'n cael ei chynnig ar-lein ar ffurf dysgu o bell. Teimlid bod hyn yn taro cydbwysedd priodol oherwydd "*Mynegodd y rhan fwyaf o ddysgwyr ffafriaeth glir am ddysgu wyneb yn wyneb dros ddulliau dysgu o bell ar-lein*." Mae'r dystiolaeth hon, ynghyd ag adborth blaenorol gan ddarparwyr, yn dangos bod llai o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddysgu digidol a dulliau cyflwyno digidol yn y rhan fwyaf o raglenni dysgu oedolion yn y gymuned.

2.3 Yr angen am newid a datblygiadau ym maes dysgu digidol

Yn wreiddiol, daeth yr ysgogiad i ddatblygu Digidol 2030 o Grŵp Gweithredu Technoleg Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth y DU (FELTAG). Roedd y grŵp hwn yn gyfrifol am wneud argymhellion ymarferol gyda'r nod o sicrhau defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol ym meysydd dysgu, addysgu ac asesu mewn addysg bellach a sgiliau. Roedd adroddiad FELTAG, a gyhoeddwyd yn 2014, yn argymell ffordd newydd o weithredu sy'n taro cydbwysedd rhwng gweledigaeth uchelgeisiol o'r brig i lawr a chyfrifoldeb o'r gwaelod i fyny am arloesi sy'n fwy cydweithredol mewn modd radicalaidd. Dyma'r math o ddull sy'n seiliedig ar berchnogaeth a rennir rydym am ei gyflawni yng Nghymru.

Roedd y fersiwn wreiddiol o Digidol 2030 yn tynnu sylw at themâu cyffredin o ragfynegiadau ynglŷn â'r ffyrdd y byddai offer a thechnolegau digidol yn cael eu defnyddio ar gyfer:

- Ehangu mynediad at weithgareddau dysgu a chyfranogiad ynddynt
- Mwy o bersonoli ar gyfer dysgwyr
- Profiadau dysgu sy'n cynnwys mwy o drochi a rhyngweithio
- Annog dysgu annibynnol a thracio cynnydd
- Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ychwanegol (gan gynnwys sgiliau meddal) ochr yn ochr â chymwysterau ffurfiol
- Defnyddio offer a thechnolegau digidol i leihau'r baich gweinyddol ar staff addysgu a chefnogi dysgwyr, fel y gallant dreulio mwy o 'amser o ansawdd' gyda dysgwyr a darparu cymorth wedi'i dargedu'n fwy personol

Mae enghreifftiau go iawn o'r themâu hyn wedi cael eu gweld yn y sector ôl-16 yng Nghymru ers 2019. Fodd bynnag, mae lefelau mabwysiadu ac integreiddio yn anwastad o hyd (mewn gwahanol rannau o'r sector ac o fewn gwahanol adrannau darparwyr dysgu unigol).

Mae manteision a chyfleoedd tebyg yn sgil dysgu digidol wedi cael eu canfod mewn rhannau eraill o'r byd. Er enghraifft, yn India, dywed ymchwilwyr fod rôl technoleg ym mholisi addysg cenedlaethol y wlad ar gyfer 2020 yn rhan ganolog o'r weledigaeth i greu system addysg sy'n barod ar gyfer y dyfodol, ac yn hanfodol er mwyn creu ecosystem dysgu cyfunol sy'n gynhwysol, yn hyblyg ac yn gystadleuol ar lefel fyd-eang. Caiff tegwch digidol, cyfyngiadau seilwaith a galluogrwydd staff eu cydnabod fel heriau a allai atal y polisi rhag gwireddu ei botensial yn llawn.

Tegwch digidol

Mae egwyddor tegwch digidol wedi dod yn gydnabyddedig yn ehangach ers pandemig Covid-19, pan gafodd nifer o elfennau craidd sy'n hanfodol ar gyfer mynediad digidol eu pennu, gan gynnwys:

- Dyfais ddigidol briodol er mwyn cael gafael ar wybodaeth a chwblhau tasgau dysgu.
- Lle addas i astudio.
- Cysylltedd dibynadwy â'r rhyngrwyd a digon o fand eang i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a defnyddio llwyfannau ac adnoddau dysgu digidol.

- Meddalwedd briodol (gan gynnwys meddalwedd hygyrchedd; pecynnau meddalwedd penodol i fodloni gofynion cyrsiau arbenigol).
- Galluoedd a hyder i ddefnyddio offer a llwyfannau digidol.
- Cymorth effeithiol gan ddarparwyr dysgu a seilwaith technegol cadarn fel sail i systemau a llwyfannau darparwyr.

Gall darparwyr dysgu fynd i'r afael ag agweddau ar degwch digidol mewn amrywiaeth o ffyrdd, megis mynediad hunanwasanaeth at ddyfeisiau ar safleoedd; cynlluniau benthyca dyfeisiau; cymorth ar gyfer technoleg gynorthwyol; cymorth ar gyfer sgiliau digidol; mannau astudio ffurfiol ac anffurfiol; a gwell seilwaith digidol ar safleoedd sy'n eiddo i ddarparwyr.

Cefnogi gwydnwch a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr

Mae cyswllt wyneb yn wyneb, cyfleoedd i gymdeithasoli, a rhyngweithio â chymheiriaid a thiwtoriaid yn elfennau allweddol o'r profiad dysgu, ac maent yn hynod werthfawr i lawer o ddysgwyr ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, mae dulliau dysgu cyfunol a hybrid yn dal yn ddefnyddiol er mwyn cefnogi gwydnwch parhaus, a gallant helpu i liniaru achosion posibl o darfu ar addysgu a dysgu.

Gall offer a llwyfannau digidol gynnig ffordd i ddysgwyr gael gafael ar wybodaeth hanfodol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, gan eu helpu i reoli pryder a gweithio wrth eu pwysau eu hunain, a rhyddhau amser i staff roi sylw i anghenion cymorth mwy penodol neu arbenigol. Gall defnydd effeithiol o ddata amser real ar ddysgwr helpu i adnabod dysgwyr y gall fod angen iddynt gael cymorth ychwanegol, a galluogi ymyriadau prydlon.

Gall defnyddio dulliau digidol mewn partneriaeth â darparwyr dysgu eraill a diwydiant helpu dysgwyr i bontio rhwng gwahanol fathau a lefelau o ddarpariaeth a chodi ymwybyddiaeth o weithgarwch mewn diwydiant ac opsiynau gyrfa. Gall cyflawni ar y cyd a mwy o gydweithio rhwng gwahanol ddarparwyr dysgu ddileu neu leihau rhwystrau daearyddol ar gyfer dysgwyr, gan gynyddu eu hopsiynau; a sicrhau bod arbenigedd darparwyr penodol ar gael yn ehangach (e.e. er mwyn cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg; datblygu sgiliau iaith).

Beth mae dysgwyr yng Nghymru yn ei feddwl am eu profiadau digidol?

O dan fframwaith Digidol 2030, â darparwyr dysgu y bydd Medr a Jisc yn ymgysylltu'n bennaf, ond ein nod yn y pen draw yw i'r fframwaith wella a chyfoethogi profiadau dysgwyr. Ymhlith yr uchafbwyntiau o adborth gan ddysgwyr (a gasglwyd drwy arolygon Dirnadaeth Profiad Digidol yng Nghymru a reolwyd gan Jisc rhwng 2019 a 2025) mae:

- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn colegau a darpariaeth prentisiaethau yn mwynhau rhoi cynnig ar dechnolegau newydd ac arloesol, neu'n hapus i ddefnyddio'r rhan fwyaf o dechnolegau cyffredin. Mae'n bosibl bod yr awydd yn llai ym maes dysgu oedolion yn y gymuned, lle y dywedodd tua 16% o'r dysgwyr ei bod yn well ganddynt beidio â defnyddio technoleg oni bai bod hynny'n hanfodol.
- Roedd dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn ag ansawdd y cymorth ar gyfer sgiliau digidol a gânt gan ddarparwyr, ac roedd gwelliant sylweddol wedi bod mewn colegau ers 2019. Mae mynediad at gymorth ar gyfer technolegau

cynorthwyol hefyd wedi cynyddu ym mhob math o ddarpariaeth ers 2019, gan gefnogi egwyddorion cynhwysiant ehangach.

- Yn 2024/25, dim ond mynediad personol at ffôn clyfar i'w helpu i ddysgu a oedd gan 17% o'r dysgwyr mewn colegau ac 8% o'r prentisiaid a ymatebodd i'r arolwg Dirnadaeth Profiad Digidol. Mae argaeledd dyfeisiau sy'n eiddo i ddarparwyr, megis gliniaduron a chyfrifiaduron desg, yn arbennig o bwysig i'r unigolion hyn. Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr sy'n berchen ar eu dyfeisiau digidol eu hunain, hyd yn oed, ddefnyddio offer sy'n eiddo i ddarparwyr o bryd i'w gilydd.
- Mae dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu digidol ar eu cyrsiau, ond yn llai bodlon ar y ffyrdd y mae amgylcheddau dysgu digidol eu darparwyr wedi'u dylunio a pha mor ddibynadwy a hawdd eu defnyddio ydynt.
- Tynnodd yr ymatebion i'r arolwg sylw at angen clir am welliant o ran sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n hyddysg ynglŷn â'u llesiant digidol eu hunain (gan gynnwys ymddygiad diogel ar-lein a defnydd o ddata personol); yn enwedig ymhlith dysgwyr mewn colegau. Mae hyn yn destun pryder pwysig yng ngoleuni ymosodiadau seiber cynyddol soffistigedig ac achosion o ddwyn hunaniaeth, ac er mwyn adnabod camwybodaeth.

Beth yw safbwynt staff ar brofiadau digidol mewn darparwyr yng Nghymru?

Ymhlith yr uchafbwyntiau o adborth mewn arolwg staff diweddar mae'r canlynol:

- Dim ond rhwng 15% a 26% o'r staff addysgu a ymatebodd i arolwg Dirnadaeth Profiad Digidol 2025 a oedd yn teimlo eu bod wedi cael cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau digidol; ac mae'r ffigurau hyn wedi gostwng ar gyfer pob math o ddarpariaeth ers 2021.
- Cafodd staff lawer o gymorth ar gyfer gwella sgiliau digidol yn ystod y pandemig, ac mae sgoriau cadarnhaol ar gyfer ansawdd addysgu digidol wedi cynyddu mewn colegau ers 2021. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod am lefelau amrywiol o arweiniad ar y sgiliau digidol sy'n ofynnol ar gyfer swyddi, ac roedd llai na 50% o staff ym mhob math o ddarpariaeth yn teimlo eu bod wedi cael cyfleoedd i asesu eu sgiliau digidol.
- Mewn colegau a darpariaeth prentisiaethau, roedd canran uchel iawn, sef 98%, o ymarferwyr addysgu'n teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio technolegau cyffredin ac yn awyddus i roi cynnig ar dechnolegau newydd. Roedd tua 85% o staff addysgu yn teimlo cymhelliant i ddefnyddio technoleg i'w helpu i addysgu.
- Dywedodd dros hanner y staff addysgu mewn colegau a darpariaeth prentisiaethau eu bod wedi cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau mewn perthynas â defnydd priodol o ddeallusrwydd artiffisial (AI). Fodd bynnag, mae diffyg amser i archwilio offer a dulliau digidol newydd yn dal yn broblem.
- Roedd staff addysgu'n teimlo'n llai cadarnhaol na dysgwyr ynglŷn â pha mor gyfredol a pherthnasol i ddiwydiant yw pecynnau meddalwedd. Roedd staff hefyd yn teimlo y gellid gwella cymorth ar gyfer gweithio o bell a chael mynediad at feddalwedd a systemau oddi ar y safle.
- Dangosodd yr ymatebion fod lle i wella o ran y ffyrdd y caiff amgylcheddau addysgu digidol eu dylunio a pha mor hawdd eu defnyddio ydynt, a'r ffyrdd y caiff mannau addysgu ffisegol eu dylunio i gefnogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol.

Y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae canlyniadau'r arolwg Dirnadaeth Profiad Digidol ymhlith dysgwyr a staff yn dangos sgoriau isel a thuedd am i lawr o ran y graddau roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i ddysgu neu alluogi eraill i ddysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd archwiliadau pellach a fydd yn targedu rhwystrau ieithyddol penodol sy'n gysylltiedig ag offer, technolegau a llwyfannau digidol yn cael eu hystyried.

Mae hyn yn destun pryder arbennig o ran technolegau sy'n datblygu, lle y gall prinder nodweddion Cymraeg neu ddwyieithog gyfyngu ar allu darparwyr dysgu i fabwysiadu offer technolegol yn gyflym gan ddiwallu anghenion ieithyddol dysgwyr a staff, cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn eu Strategaethau ar gyfer yr Iaith Gymraeg (yn unol ag amod rheoleiddio Medr ar gyfer y Gymraeg), a chyflawni dyletswyddau darparwyr yn unol â safonau'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol.

2.4 Cysondeb strategol

Ers 2019, mae fframwaith Digidol 2030 wedi cael ei roi ar waith yn unol ag egwyddorion pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- cymryd ymagwedd **hirdymor** tuag at gyflawni ein nodau, gan gydnabod bod dysgwyr a darparwyr dysgu yn mynd i'r afael â'r pwnc hwn o wahanol fannau cychwyn, ac y bydd ganddynt gryfderau, arbenigeddau a phrofiadau gwahanol
- gwerthfawrogi bod defnydd effeithiol o offer a thechnolegau digidol yn cynnig cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd a hyblygrwydd i bawb (nid dim ond i ddefnyddwyr ag anableddau cydnabyddedig), ac y gallant ddarparu data perthnasol i lywio ymdrechion darparwyr dysgu i **atal** dysgwyr rhag ymadael a chynnig cymorth priodol
- mwy o **integreiddio** â mewnbwn ar flaenoriaethau a chamau gweithredu cenedlaethol gan ddarparwyr dysgu, rhanddeiliaid allweddol a Llywodraeth Cymru
- annog **cydweithio** â darparwyr dysgu eraill er mwyn rhannu arferion da, profiad ac arbenigedd, a datblygu dulliau ac atebion cydweithredol
- hyrwyddo **cyfranogiad** staff a dysgwyr darparwyr dysgu wrth ddylunio technoleg ddigidol i gefnogi gwelliant parhaus, a rhoi'r dechnoleg honno ar waith, ei gwerthuso ac adolygu'r defnydd a wneir ohoni.

Mae *Uchelgais Newydd i Gymru; Rhaglen Lywodraethu 2026-2030* yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu "*dealltwriaeth glir o'n gofynion sgiliau, gan sicrhau bod cyfleoedd addysg a hyfforddiant... yn unol ag anghenion cyflogwyr a diwydiannau Cymru*" ynghyd ag ystwythder i addasu'n gyflym i gyfleoedd ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen hon yn gosod bwriad clir i Gymru "*fabwysiadu dull mwy integredig o fynd i'r afael â heriau sy'n cael effaith ar fywydau pobl a'u profiad o wasanaethau cyhoeddus*" fel rhan o ddull trawslywodraethol sydd â ffocws ar weithredu. Mae darparwyr dysgu yng Nghymru yn rhan o'r ecosystem ehangach hon ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chyflawni er mwyn cefnogi uchelgeisiau allweddol y Llywodraeth, nid yn unig o ran datblygu system fwy cysylltiedig a chydweithredol ar gyfer addysg a sgiliau, ond hefyd o ran cyfrannu at y genhadaeth ehangach ar gyfer yr economi a chynhyrchiant.

Yn *Uchelgais Newydd i Gymru*, ceir pwyslais ar bwysigrwydd manteisio ar "*botensial arloesedd digidol ac AI, gan barhau i roi pwyslais clir ar fabwysiadu'r dechnoleg mewn ffordd ddiogel, foesegol a seiberddiogel.*" Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Strategaeth Ddigidol newydd a fydd yn cefnogi digideiddio ac arloesedd yn economi Cymru, yn bwrw ymlaen â thrawsnewid digidol ym maes gwasanaethau cyhoeddus ac yn helpu i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial (AI) mewn ffordd ddiogel a moesegol.

Medr sy'n gyfrifol am fframwaith Digidol 2030 ers mis Awst 2024. Mae Digidol 2030 a gweithgareddau dysgu digidol gan Medr yn cefnogi Nod Strategol 2 yn ein Cynllun Strategol:

"Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle y gall pawb ddysgu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid"

2.5 Cyflwyno fframwaith Digidol 2030

Cafodd y fersiwn wreiddiol o'r fframwaith hwn ei datblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Jisc, a'r sector ôl-16.

Mae mewnbwn gan staff darparwyr dysgu ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol feysydd gwaith o fewn sefydliadau unigol wedi bod yn bwysig er mwyn pennu'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion cyffredin trosfwaol sy'n ffurfio asgwrn cefn Digidol 2030. Mae'r elfennau craidd hynny wedi cael eu cadw'r un fath yn y fersiwn ddiwygiedig hon.

Bwriad y fframwaith yw:

- Cyfleu gweledigaeth glir, gyffredin ar gyfer ein hymagwedd at ddysgu digidol yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.
- Nodi blaenoriaethau datblygu, disgwyliadau, a meysydd i'w datblygu y gellir mynd i'r afael â nhw ar lefel darparwyr, ar lefel gydweithredol ac ar lefel genedlaethol.
- Helpu i flaenoriaethu buddsoddiad amser ac adnoddau yn y dyfodol.
- Cefnogi parhad profiadau dysgu a throsglwyddo o ddarpariaeth ddysgu orfodol i addysg ôl-orfodol.

Nodau

Mae wyth nod y fframwaith (gweler adran 3) yn pennu cyfeiriad strategol cyffredinol i'r sector ôl-16 weithio tuag ato erbyn 2030. Mae'r nodau hyn yn seiliedig ar olwg gyfannol ar y cymorth digidol sy'n ofynnol ar gyfer taith gyfan y dysgwr; gan gynnwys elfennau o arweinyddiaeth, prosesau busnes, diogelwch, a seilwaith y bydd angen iddynt fod ar waith er mwyn hwyluso darpariaeth ddigidol effeithiol.

Amcanion a Chamau Gweithredu

Mae amcanion ym mhob un o'r chwe maes amcanion (gweler adran 4) yn rhoi dadansoddiad manylach a mwy ymarferol o'r hyn y bydd angen ei roi ar waith er mwyn cyflawni'r nodau. Mae'r amcanion hyn wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r meysydd gweithredol neu swyddogaethol o fewn sefydliadau darparwyr dysgu.

3.0 Gweledigaeth a Nodau

Bydd darparwyr dysgu ôl-16 yn integreiddio technoleg ddigidol yn ddi-dor yn eu gweithgarwch cyflwyno; ac yn annog arloesedd wrth ddefnyddio dulliau cynhwysol, hygyrch a dwyieithog i wella profiad y dysgwr. Yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gefnogi economi Cymru, bydd darparwyr yn rhoi'r galluoedd a'r hyder digidol i ddysgwyr a staff y bydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd beunyddiol ac mewn gwaith.

Nod 1	Safonau clir y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer sgiliau digidol yn eu lle i alluogi dysgwyr a staff i fodloni gofynion y diwydiant, y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gan adeiladu ar y cymwyseddau digidol a ddatblygwyd yn ystod addysg orfodol
Nod 2	Mae dysgu yn cael ei gyfoethogi drwy ddefnyddio technoleg, lle bynnag y mae'n briodol ac yn fuddiol i'r dysgwr
Nod 3	Cynyddir cydlyniad a hygyrchedd dysgu digidol drwy amrywiaeth o ddulliau cyflwyno'r cwricwlwm sy'n briodol i anghenion dysgwyr a chyflogwyr, ac sy'n cynnig cyfleoedd dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg
Nod 4	Mae profiad addysgu a dysgu diogel a sicr yn cael ei roi ar waith a'i reoli ar gyfer yr holl ddysgwyr a staff drwy ddarparu amgylcheddau rhithwir a ffisegol priodol
Nod 5	Mae'r holl staff, gan gynnwys uwch-arweinwyr, yn deall manteision technoleg ddigidol, a rhwystrau posibl rhag eu cyflawni
Nod 6	Rhoddir cefnogaeth ar gyfer gwella profiad y dysgwr a phrosesau busnes yn barhaus drwy ddefnydd effeithiol ac arloesol o dechnoleg ddigidol
Nod 7	Mae diwylliant o gydweithio yn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion gorau yn cael eu rhannu i ysgogi defnydd effeithiol o sgiliau digidol er mwyn cefnogi prosesau arweinyddiaeth, dysgu a busnes
Nod 8	Mae staff, adnoddau dysgu ac adnoddau busnes yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn hwyluso cymorth effeithlon ar gyfer gofynion digidol addysg ôl-16 sy'n datblygu'n barhaus

3.1 Rhanddeiliaid allweddol

Mae'r siart isod yn dangos rhanddeiliaid allweddol a fydd yn cyfrannu at gyrraedd y nodau hyn a chyflawni'r amcanion, ar lefel genedlaethol ac ar lefel darparwyr.

<table>
<tr>
<td>Strategol:
Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)
Jisc
Llywodraeth Cymru
Cyrff sy'n cynrychioli'r sector (ColegauCymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru)
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Estyn
Cymwysterau Cymru a sefydliadau dyfarnu</td>
<td>Partneriaid cenedlaethol eraill:
Cyflogwyr a'u cyrff cynrychiadol
Undebau llafur
UCM Cymru
Darparwyr sy'n cynnig cymwysterau addysgu a hyfforddi trydyddol
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Comisiynydd y Gymraeg
Cyflenwyr meddalwedd</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">O fewn darparwyr dysgu:
Ymarferwyr (darlithwyr, aseswyr a thiwtoriaid)
Timau uwch-arweinwyr a chyrff llywodraethu
Arweinwyr cwricwlwm
Cyfarwyddwyr adnoddau dynol
Cyfarwyddwyr TG a thimau cymorth technegol
Dysgwyr, eu cynrychiolwyr a chyrff sy'n cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli)
Rheolwyr cyflwyno ac asesu dysgu
Rheolwyr rhaglenni dysgu
Rheolwyr ansawdd
Timau cymorth dysgu
Timau ymgysylltu â chyflogwyr / unedau busnes sefydliadol
Timau cymorth a gweinyddu busnes
Swyddogion diogelu data
Rheolwyr ystadau ac adnoddau</td>
</tr>
</table>

4.0 Amcanion

Gwaith cynllunio darparwyr

Bwriedir i'r amcanion hyn fel awgrymiadau i ddarparwyr dysgu wrth iddynt lunio, cyflawni ac adolygu eu cynlluniau datblygu digidol eu hunain. Mae'r amcanion hyn wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r meysydd gweithredol neu swyddogaethol o fewn llawer o sefydliadau.

Rydym yn gwahodd darparwyr dysgu i ddilyn ffordd o weithredu sy'n gweddu orau i'w cyd-destunau lleol eu hunain, gan gynnwys y mathau o ddarpariaeth dysgu a gynigir o fewn eu sefydliadau; anghenion eu dysgwyr a'u staff; gofynion cyrff dyfarnu perthnasol; lefelau galluogrwydd a hyder staff; capasiti ac adnoddau.

Dylai darparwyr dysgu sicrhau y caiff amcanion a blaenoriaethau perthnasol eu hymgorffori yn eu gwaith cynllunio sefydliadol mewn ffordd sy'n berthnasol, yn briodol ac yn ymarferol i'w sefydliadau eu hunain. Gallai darparwyr ddewis creu cynllun dysgu digidol annibynnol; neu integreiddio agweddau ar ddysgu digidol mewn strategaethau sefydliadol ehangach.

Cyfeiriwyd at ddatblygu diwylliant digidol mwy cydlynol a chydgysylltiedig yn aml fel un o fanteision annisgwyl menter yr Alwad i Weithredu ar gyfer sefydliadau addysg bellach rhwng 2022/23 a 2024/25.

Mae 'digidol' yn cael ei wreiddio'n gynyddol fel rhan o ddull gweithredu craidd ar gyfer sefydliad cyfan. Mae colegau'n rhoi gwybod am ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb cyffredin am ddysgu digidol a dulliau mwy hyderus o arloesi.

Fodd bynnag, mae adborth gan ddarparwyr dysgu a gwaith ymchwil gan Jisc wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen gwella cydlyniant a chysondeb mewnol rhwng gwahanol adrannau a meysydd cwricwlwm o hyd, yn ogystal â sicrhau y caiff y nod o sicrhau profiad mwy cyson i ddysgwyr ei adlewyrchu mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chymorth ym mhob rhan o'r sefydliad. Gallai enghreifftiau o arferion da ac arloesi gan aelodau unigol o staff, neu mewn meysydd cyflwyno penodol, gael eu rhaeadru a'u mabwysiadu'n ehangach drwy'r sefydliad cyfan.

Adnoddau ar gyfer cynllunio sefydliadol:

Mae Jisc yn cynnig amrywiaeth o adnoddau hunanasesu, modelau, cyngor ac arweiniad a all fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr er mwyn cefnogi gweithgareddau cynllunio sefydliadol. Mae'r eitemau a restrir isod ar gael i ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru.

- Cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr Jisc yn y DU ar feysydd gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI); trawsnewid digidol; arweinyddiaeth; hygyrchedd ac arferion digidol cynhwysol.
- Pecyn cymorth aeddfedrwydd AI ar gyfer y sector addysg drydyddol.

- Fframwaith aeddfedrwydd data; wedi'i fwriadu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch yn bennaf, ond gall gynnwys gwybodaeth drosglwyddadwy ar gyfer mathau eraill o ddarpariaeth.
- Adnodd dyrchafu digidol ar gyfer darparwyr ôl-16 (er mwyn helpu darparwyr i wella profiad defnyddwyr; a datblygu ystwythder a gwydnwch sefydliadau).

Maes Amcanion 1: Arweinyddiaeth a Rheoli



1.1	Mae gan uwch-arweinwyr weledigaeth glir ac ymrwymiad i ddefnyddio technolegau digidol a sianeli digidol i wella dysgu a sgiliau.
1.2	Mae cynwysoldeb, sgiliau digidol a'r defnydd o dechnoleg ac adnoddau digidol wedi'u cynnwys mewn polisïau sefydliadol craidd. Mae staff a dysgwyr yn deall polisïau, ac maent yn dangos llinellau atebolrwydd clir o ran cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, diogelwch, diogelu, hygyrchedd a diogelu data.
1.3	Mae uwch-arweinwyr a rheolwyr yn meithrin diwylliant o gydweithio (o fewn y sefydliad ac â phartneriaid eraill), sy'n galluogi defnydd effeithiol o arbenigedd ac adnoddau i reoli a gwella'r defnydd o dechnoleg.
1.4	Mae defnydd priodol o dechnolegau digidol yn helpu'r sefydliad i werthuso a gwella profiadau dysgwyr a phrosesau busnes cysylltiedig (megis derbyn dysgwyr, rheoli data ac adrodd).
1.5	Mae staff, dysgwyr a phartneriaid yn cael eu grymuso i gymryd perchenogaeth dros eu defnydd o dechnolegau digidol ac maent yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau digidol o fewn diwylliant sefydliadol cadarnhaol a chefnogol.
1.6	Mae prosesau, rhwydweithiau a sianeli priodol ar waith i hwyluso a chefnogi'r gwaith o rannu arferion da o ran technolegau digidol a sgiliau digidol.

Maes Amcanion 2: Cyflwyno ac asesu'r cwricwlwm



2.1	Mae'r holl ddysgwyr yn cyrraedd lefel o sgiliau digidol sy'n briodol i'w rhaglen ddysgu a'u nodau unigol.
2.2	Defnyddir dull diagnostig i asesu sgiliau digidol dysgwyr, ac fel llinell sylfaen i fesur eu cynnydd a'u deilliannau.
2.3	Defnyddir technolegau digidol priodol i gyfoethogi dulliau cyflwyno ar gyfer dysgu, cefnogi asesiadau, a helpu staff i ymateb i ddewisiadau, agweddau a galluoedd unigol dysgwyr.
2.4	Defnyddir offer, technolegau a systemau cynhwysol yn briodol i ennyn diddordeb dysgwyr, eu cefnogi, eu hymestyn a'u herio.
2.5	Mae staff yn cael eu grymuso i archwilio dulliau arbrofol ac arloesol o ymdrin â dysgu digidol, i werthuso a myfyrio ar y deilliannau, ac i rannu arferion da a'r gwersi a ddysgir.
2.6	Mae darparwyr yn galluogi addysgu, dysgu, asesu a chymorth effeithiol, hygyrch a chynhwysol drwy gydgysylltu mannau dysgu rhithwir a ffisegol.

Maes Amcanion 3: Ehangu cyfranogiad a chymorth dysgu



3.1	Gall dysgwyr o bob cefndir a gallu gyflawni hyd eithaf eu potensial drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i gynyddu hyblygrwydd a chefnogi dysgu annibynnol.
3.2	Defnyddir technegau dysgu digidol, adnoddau a dulliau diagnostig mewn ffordd greadigol er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyfranogiad a llwyddiant dysgwyr.
3.3	Mae llwyfannau dysgu, offer ac adnoddau newydd posibl yn cael eu hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio, gan roi ystyriaeth i anghenion dwyieithog.
3.4	Mae gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau arbenigol, yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynhwysiant digidol, hygyrchedd a llesiant dysgwyr.
3.5	Mae arweiniad a chymorth ar gael er mwyn helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau o ran defnyddio technoleg i ehangu mynediad a chefnogi dysgwyr, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch ar-lein a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau hygyrchedd.
3.6	Mae dysgwyr yn cael cymorth i gyflawni eu nodau drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am eu nodweddion, eu presenoldeb, eu cynnydd a'u deilliannau.

Maes Amcanion 4: Ymgysylltu â chyflogwyr a chymunedau



4.1	Mae darparwyr dysgu yn cynnal eu hymwybyddiaeth o arferion perthnasol mewn diwydiant a'r gofynion presennol o ran sgiliau digidol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, drwy ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a chymunedau.
4.2	Mae darpariaeth ddysgu wedi'i hwyluso drwy dechnolegau digidol yn cael ei dylunio i adlewyrchu arferion mewn diwydiant ac ymwybyddiaeth o'r gofynion presennol o ran sgiliau digidol yn y gweithle a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.
4.3	Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o werthuso effeithiolrwydd dysgu digidol a dylunio gwelliannau a'u rhoi ar waith.
4.4	Mae dysgwyr yn deall y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg, gan gynnwys llythrennedd ym maes deallusrwydd artiffisial (AI), diogelwch ar-lein, defnydd cyfrifol o'r cyfryngau cymdeithasol a rheoli enw da ar-lein.
4.5	Mae darparwyr dysgu yn ystyried cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr ddefnyddio sgiliau Cymraeg, eu gwella a magu hyder wrth eu defnyddio wrth ddylunio technolegau digidol newydd a'u rhoi ar waith.

Maes Amcanion 5: Datblygu staff



5.1	Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau unigol am ddysgu digidol, llesiant a diogelwch ar-lein.
5.2	Mae mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol yn datblygu hyder staff i ddefnyddio technegau cyflwyno digidol, ynghyd â'u gallu i ganfod technolegau, offer a dyfeisiau addas i gefnogi eu gwaith.
5.3	Mae staff addysgu yn gallu sicrhau bod eu defnydd o dechnolegau dysgu yn ychwanegu gwerth at brofiadau dysgwyr drwy ymarfer myfyriol.
5.4	Mae staff yn gwella ac yn diweddaru eu cymhwysedd digidol drwy gymryd rhan weithredol mewn cymunedau ymarfer, digwyddiadau a rhwydweithiau, a hynny o fewn eu sefydliad eu hunain a thu hwnt.
5.5	Mae arloeswyr neu 'hyrwyddwyr' digidol yn cefnogi'r gwaith o ledaenu'r arferion gorau drwy hyfforddi a mentora cydweithwyr.

Maes Amcanion 6: Systemau a seilwaith menter



6.1	Mae profiadau dysgwyr yn cael eu cyfoethogi drwy lwyfannau, offer a gwasanaethau digidol o ansawdd da sy'n hygyrch ac yn ennyn diddordeb.
6.2	Mae profiad digidol diogel a chadarn yn cael ei gynnig i'r holl ddysgwyr a staff, gan gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a'r safonau perthnasol (gan gynnwys hygyrchedd).
6.3	Mae gweithgareddau gweinyddu ac adrodd yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan dechnoleg ddigidol er mwyn i staff addysgu allu canolbwyntio ar anghenion dysgwyr.
6.4	Anogir cydweithio â sefydliadau eraill ynghylch technolegau digidol er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, osgoi dyblygu, sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth.
6.5	Gwneir buddsoddiadau ariannol mewn cyflwyno a diweddaru technolegau digidol fel rhan o ddull strategol a chynlluniedig o wella cymorth, sgiliau a chyflogadwyedd dysgwyr.
6.6	Mae penderfyniadau ynghylch systemau ac offer digidol newydd yn cael eu llywio gan weithgareddau ymgynghori â staff, dysgwyr a defnyddwyr eraill, a'u gwerthuso ar ôl cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu.

5.0 Gweithredu

Yn Atodiad 1, ceir amlinelliad byr o'r prif gyfnodau o weithgarwch a ddigwyddodd yn ystod y broses gychwynnol o roi fframwaith Digidol 2030 ar waith (o 2019 i 2025). Cafodd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn ei gyllido a'i gydgysylltu gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Jisc.

Mae'r adran hon yn ystyried y gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ar adeg yr adolygiad canol tymor hwn gan Medr, ac yn nodi ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod o 2026 i 2030.

5.1 Gwreiddio Digidol 2030

Gwaith casglu tystiolaeth gan Medr

Ar gais Medr, mae Jisc wedi cydgysylltu gweithgareddau ymgysylltu â darparwyr dysgu, cyrff cynrychiadol a rhanddeiliaid allweddol er mwyn llunio adroddiadau i Medr ar anghenion o ran buddsoddi mewn addysg bellach; dysgu digidol mewn darpariaeth prentisiaethau; ac asesiad wedi'i ddiweddaru o anghenion a blaenoriaethau ym maes deallusrwydd artiffisial (AI) yn y sector addysg drydyddol. Mae crynodebau o'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion i'w gweld ar dudalen we Dysgu Digidol Medr.

Bwriedir i'r gwaith hwn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol o ran dysgu digidol mewn gwahanol fathau o ddarpariaeth; llywio ein gwaith cynllunio ar gyfer dysgu digidol yn y dyfodol; a phennu blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cydgysylltiedig neu fuddsoddiad yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i gefnogi gweithgareddau dysgu digidol yng Nghymru drwy grantiau i ddarparwyr dysgu cymwys.

2025 i 2027: Grantiau refeniw digidol i ddarparwyr dysgu

Cafodd prifysgolion a darparwyr hyfforddiant annibynnol grantiau digidol gan Medr am y tro cyntaf yn 2025/26, a pharhawyd i roi cyllid i golegau. Dywed derbynyddion y grantiau fod y cymorth hwn yn cyflymu gweithgarwch ym maes dysgu digidol.

Mae'r cyfnod hwn yn ein galluogi i archwilio sut y gallai blaenoriaethau craidd fod yn berthnasol i wahanol fathau o ddarpariaeth; canfod meysydd diddordeb cyffredin, ac awgrymu cyfleoedd i gydweithio o bosibl. Rydym yn dysgu o'r broses hon ac yn ystyried yr adborth a'r wybodaeth mewn adroddiadau gan dderbynyddion grantiau ochr yn ochr â'r argymhellion o waith casglu tystiolaeth Jisc.

Grantiau cyfalaf ar gyfer addysg bellach

Ers i fenter yr Alwad i Weithredu ddod i ben ym mis Gorffennaf 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i glustnodi £3 miliwn o gyllid cyfalaf digidol ar gyfer addysg bellach yng nghyllideb flynyddol Medr.

Mewn ymateb i ganfyddiadau o astudiaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a gynhaliwyd gan Jisc, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Gofyn i golegau ddatblygu cynlluniau gwariant cyfalaf tair blynedd
- Sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau buddsoddi tymor hwy a mwy strategol; gan gydnabod bodolaeth cylchoedd rheolaidd a rhagweladwy ar gyfer amnewid neu uwchraddio cyfarpar, dyfeisiau a seilwaith digidol
- Cadw rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer cefnogi arloesedd ac i golegau allu ymateb i anghenion newydd a ddaw i'r amlwg yn ystod y cyfnod tair blynedd.

Y blaenoriaethau nesaf ar gyfer Digidol 2030

Rydym yn gweithio gyda Jisc i ddatblygu rhaglen o weithgareddau wedi'u cyllido gan Medr yn dilyn y broses hon o adnewyddu Digidol 2030. Ymhlith y cynlluniau ar gyfer gweithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Digidol 2030 mae:

- Llunio rhagor o ddeunydd ategol ar gyfer fframwaith diwygiedig Digidol 2030, yn seiliedig ar adborth gan ddarparwyr dysgu.
- Ystyried dulliau o gasglu adborth a data yn ystod y cyfnod hwn, sef cyfnod olaf Digidol 2030.

I gefnogi darparwyr dysgu wrth iddynt roi Digidol 2030 ar waith, bydd Medr yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Gwella lefelau ymgysylltu â dysgu ac ehangu cyfranogiad	Annog darparwyr dysgu i wneud y canlynol: • datblygu galluoedd digidol cyffredinol dysgwyr, a'u profiad a'u sgiliau sy'n briodol ar gyfer diwydiant • archwilio a gwreiddio dulliau dysgu hyblyg a chynhwysol a all helpu i leihau rhwystrau rhag cymryd rhan • codi lefelau ymgysylltu dysgwyr â'u dysgu a'u perchnogaeth drosto • gwella a chyfoethogi profiadau dysgwyr
Gosod disgwyliadau cliriach	• Edrych eto ar waith blaenorol (cyn y pandemig) ar ddatblygu cyfres glir a chyson o Safonau Digidol ar gyfer ymarferwyr • Rhannu enghreifftiau o sut beth yw profiadau digidol ‘da’ i ddysgwyr • Rhoi arweiniad ymarferol ar ddylunio dysgu digidol mewn modd cynhwysol
Mabwysiadu arferion digidol mewn modd cydlynol a chyson	• Datblygu cymorth ymarferol wedi'i dargedu ar gyfer arweinwyr canol • Rhannu enghreifftiau o arferion da sy'n addas i gael eu mabwysiadu'n ehangach • Annog darparwyr dysgu i ymestyn arferion da sydd eisoes yn bodoli, gwerthuso arloesedd a chanfod enghreifftiau effeithiol i'w prif ffrydio • Meithrin dulliau effeithiol a chynhwysol o gyflwyno offer a thechnolegau yn ehangach, gan gynnwys dysgwyr a staff
Helpu i arloesi ac integreiddio	• Parhau i weithio gyda’r sector i fabwysiadu technolegau newydd ac annog staff i rannu gwybodaeth am brofiadau (gan gynnwys

technolegau newydd	drwy gymunedau proffesiynol ym maes AI a realiti estynedig sydd eisoes yn bodoli ar gyfer staff y sector)
Y Gymraeg yn yr amgylchedd digidol	Rhannu enghreifftiau o arferion da ar gyfer: • integreiddio'r Gymraeg mewn offer a llwyfannau digidol, gan gynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn naturiol mewn amgylcheddau digidol • defnyddio offer digidol i ddatblygu galluoedd yn y Gymraeg a chefnogi defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn cyd-destunau dysgu
Annog ymddygiadau digidol diogel a datblygu defnyddwyr digidol gwybodus	Codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth o feysydd megis diogelwch ar-lein; defnydd diogel o ddata personol; hunaniaeth ddigidol; llythrennedd ym maes AI; gwella hygyrchedd yn yr amgylchedd digidol

5.2 Monitro cynnydd ac asesu effaith

Defnyddiwyd adnodd arolwg Dirnadaeth Profiad Digidol y DU Jisc i gasglu adborth ar brofiadau digidol dysgwyr, ymarferwyr addysgu a staff gwasanaethau proffesiynol yng Nghymru bob dwy flynedd o 2019 o 2025. Mae nifer y dysgwyr a'r staff sy'n cwblhau arolygon ledled y DU wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a daeth Jisc â'r gwasanaeth Dirnadaeth Profiad Digidol i ben yn 2026.

Mae Medr yn archwilio dulliau amgen o gasglu data a fydd yn helpu i gynnal gwerthusiadau crynodol o fframwaith Digidol 2030 a buddsoddiadau cyfalaf digidol yn y dyfodol.

Yr egwyddorion allweddol rydym yn eu hystyried yw:

- Sicrhau y gellir clywed lleisiau dysgwyr a staff ochr yn ochr â safbwyntiau sefydliadau
- Gwella tystiolaeth o effaith Digidol 2030 a buddsoddiad mewn dysgu digidol (sy'n aml yn heriol o fewn cylchoedd grantiau un flwyddyn)
- Taro cydbwysedd rhwng yr awydd am sylfaen dystiolaeth gadarn ac ymwybyddiaeth o lefel y mewnbwn sy'n ofynnol, cyfyngiadau hysbys ar gapasiti, cyd-destun gofynion adrodd ehangach a gweithgareddau gan Medr (gan gynnwys ein Harolwg Llais y Dysgwyr newydd)
- Datblygu dull cynaliadwy sy'n adlewyrchu ehangder a graddfa darpariaeth ôl-16 ac y gellid ei addasu neu ei dyfu yn y dyfodol

Gall y ffynonellau gwybodaeth allweddol gynnwys cyfuniad o'r canlynol:	Safbwyntiau a gynrychiolir:	
	Sefydliad	Dysgwyr a/neu staff
Ffurflenni grantiau i Medr gan ddarparwyr dysgu (yn uniongyrchol gysylltiedig â chyllid blwyddyn academaidd)	Ie	
Cynlluniau buddsoddi cyfalaf digidol tair blynedd gan golegau ac adroddiadau cynnydd i Medr	Ie	
Defnydd cyfnodol o adnoddau hunanasesu Jisc ar gyfer darparwyr dysgu (e.e. aeddfedrwydd digidol)	Ie	
Arolygon digidol cyfnodol ar gyfer staff a/neu ddysgwyr; gyda chwestiynau wedi'u mapio i flaenoriaethau Digidol 2030 ac sy'n helpu i ddangos tystiolaeth o effaith buddsoddiad digidol		Ie
Archwilio themâu allweddol er mwyn cael dirnadaeth ddyfnach o agweddau, canfyddiadau a phrofiadau (e.e. gweithgareddau grŵp ffocws; adolygiadau thematig)		Ie

6.0 Ar ôl 2030

Mae'r sector addysg drydyddol yng Nghymru yn cynnwys amrywiaeth eang o ddarpariaeth ddysgu a sefydliadau sy'n ei chynnig. Gall dysgwyr ym mhob rhan o'r sector hwn fod ar gamau gwahanol iawn yn eu bywydau, ar eu teithiau dysgu ac yn eu gyrfaoedd ym myd gwaith.

Ein huchelgais ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy, ar ôl 2030, yw gwreiddio dull Medr o ymdrin â dysgu digidol yn fwy cadarn yn y dirwedd addysg drydyddol. Ein bwriad yw y bydd Medr yn datblygu dull mwy cyfannol o ymdrin â dysgu digidol; gan weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth lle y gall cyfraniad Medr gynyddu cynaliadwyedd ac ychwanegu gwerth clir.

Bydd angen i ddarparwyr barhau i wreiddio eu dulliau o ymdrin â dysgu digidol, gan addasu yn unol â thechnolegau newydd ac arferion da sy'n datblygu. Rydym am annog dulliau cydweithredol lle mae meysydd diddordeb cyffredin wedi cael eu canfod mewn amrywiaeth o ddarpariaeth a gwahanol fathau o ddarparwyr.

Byddwn yn awyddus i barhau â'r brwdfrydedd a'r momentwm y mae Digidol 2030 wedi'u creu. Fodd bynnag, bydd yn bwysig taro cydbwysedd rhwng hyn a threulio'r amser angenrheidiol yn cymryd saib ac yn myfyrio ar yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r cyfnod hwn er mwyn dylunio dull Medr o ymdrin â dysgu digidol yn y dyfodol mewn modd priodol, effeithiol a chynhwysol.

Mae'n debygol y bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar y dull hwn yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Newidiadau i'r dirwedd gyd-destunol ehangach ar gyfer dysgu digidol (gan gynnwys arferion gorau mewn addysgeg ddigidol a'r defnydd o dechnoleg ddigidol wrth addysgu a dysgu); datblygiad parhaus technolegau ac offer digidol; datblygiad anghenion o ran sgiliau digidol a sgiliau dynol yn y gweithle
- Blaenoriaethau strategol a pholisïau ar gyfer dysgu digidol, sgiliau ac addysg drydyddol a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru a chanlyniadau ei hadolygiad o'r ffordd y caiff addysg uwch ei chyllido a'i threfnu
- Polisi Buddsoddi arfaethedig Medr (sy'n destun ymgynghoriad yn ystod 2026) a chyllidebau yn y dyfodol
- Cynllun Cenedlaethol Medr ar gyfer y Gymraeg (y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2027)
- Safbwynt Medr ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) mewn addysgu a dysgu (erbyn mis Mawrth 2027)
- Canfyddiadau o waith casglu tystiolaeth gan Jisc yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27 ar anghenion a blaenoriaethau o ran dysgu digidol mewn addysg uwch
- Rhoi'r rhaglen brentisiaethau newydd ar waith o 1 Awst 2027 ymlaen, gan gynnwys newidiadau i ddull cyllido Medr
- Canfyddiadau o werthusiad crynodol o fframwaith Digidol 2030 ac unrhyw bwyntiau ar gyfer dysgu neu wella a nodir ar gyfer mentrau strategol yn y dyfodol (tua 2030-2031)
- Fersiynau a chylchoedd adolygu polisïau a dulliau ehangach Medr yn y dyfodol fel cyllidwr a rheoleiddiwr addysg drydyddol yng Nghymru

- Gwaith mewn meysydd allweddol megis llais y dysgwr a datblygu'r gweithlu, a fydd yn cynnig dirnadaeth werthfawr o anghenion a blaenoriaethau dysgwyr a staff yn y sector.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am waith Medr ar ddysgu digidol ar ein tudalen we dysgu digidol.

Atodiad 1: Rhoi Digidol 2030 ar waith (o 2019 i 2025)

I gyd-fynd â dogfen wreiddiol Digidol 2030, cyhoeddwyd canllawiau gweithredu i ddarparwyr dysgu, canllaw rhyngweithiol, fideo rhagarweiniol a deunydd y gallai darparwyr ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r fenter hon.

Erbyn dechrau 2020, gellir crynhoi'r sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn:

- Sefydlwyd lefelau da o ymrwymiad ymhlith arweinwyr i weledigaeth a dyheadau cyffredin Digidol 2030.
- Rhoddodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn er mwyn helpu i lansio Digidol 2030 yn 2019-20; gan gynnwys £2 miliwn ar gyfer prosiectau arloesi a £3 miliwn a ddosbarthwyd ymhlith colegau a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer offer digidol a seilwaith digidol. Fodd bynnag, roedd buddsoddiad mewn 'digidol' yn dal i ddigwydd ar sail ad hoc ac yn ddibynnol ar argaeledd cyllid; gan gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynllunio strategol tymor hwy.
- Roedd darparwyr dysgu ar fannau cychwyn gwahanol o ran ymrwymiadau sefydliadol i ddysgu digidol a/neu gyfunol; lefelau presennol o alluoedd digidol, mabwysiadu amgylcheddau dysgu rhithwir a datblygu seilwaith digidol. Roedd darparwyr wedi dechrau ystyried eu sefyllfaoedd a'u blaenoriaethau eu hunain ar gyfer dysgu digidol, yn unol â Digidol 2030.

2020 a 2021: Pandemig Covid-19 a'r cyfnod adfer

Roedd cymorth Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at gyfleoedd dysgu i unigolion nad oedd ganddynt (ac nad oeddent mewn sefyllfa i brynu) offer digidol priodol. Rhoddwyd dros £12 miliwn o gyllid cyfalaf i ddarparwyr dysgu ôl-16 yn 2020 a 2021 i gefnogi cynhwysiant digidol.
- Cyflwyno dull dysgu cyfunol, yn unol â chynllun gwydnwch Covid-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector ôl-16 yng Nghymru. Aeth gweithgor (gan gynnwys cynrychiolwyr darparwyr dysgu, Jisc, Estyn a rhanddeiliaid allweddol eraill) ati i lunio canllawiau ar ddysgu cyfunol a chyfeirio staff a oedd yn gweithio yn y sector at ddeunydd datblygiad proffesiynol.

Wrth i'r cyfnod adfer ar ôl y pandemig fynd yn ei flaen, roedd tystiolaeth yn sail ar gyfer penderfyniadau i ganolbwyntio ar wella gwydnwch craidd, gwreiddio addysgeg ddigidol a chefnogi ffyrdd newydd o weithio, addysgu a dysgu.

2022 i 2025: Yr Alwad i Weithredu ar gyfer addysg bellach

Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg 'Alwad i Weithredu' newydd ar gyfer dysgu digidol mewn addysg bellach. Nod y fenter hon oedd ailgyflwyno dull mwy cynaliadwy a strategol o ymdrin â dysgu digidol yn unol â fframwaith Digidol 2030. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am yr Alwad i Weithredu i Medr ym mis Awst 2024.

Roedd yr Alwad i Weithredu yn cynnwys ymrwymiad ymlaen llaw i wneud buddsoddiad cyfalaf gwerth £8 miliwn dros dair blynedd, ac fe'i hategwyd gan symiau llai o gyllid

refeniw bob blwyddyn. Ymhlith y themâu a oedd yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn roedd:

- Ystyried y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) mewn addysg bellach (drwy gyfres o chwe phrosiect peilot a arweiniwyd gan golegau) a rhannu gwybodaeth mewn cymuned broffesiynol newydd ar gyfer AI yng Nghymru.
- Seiberddiogelwch a gwella gwydnwch digidol.
- Archwilio potensial realiti estynedig a thechnolegau dysgu sy'n cynnwys trochi mewn cymuned broffesiynol weithredol a brwdfrydig ar gyfer realiti estynedig.

Uchafbwyntiau o fenter yr Alwad i Weithredu

Mae adroddiadau colegau'n dweud bod y fenter a'r buddsoddiad amlflwyddyn cysylltiedig wedi bod yn sbardun sylweddol ar gyfer newid ac wedi cyflymu cynnydd. Ymhlith y ffactorau llwyddiant allweddol roedd cael fframwaith strategol clir; cynnwys strwythurau llywodraethu o fewn sefydliadau darparwyr (e.e. Grwpiau Llywio Digidol neu Grwpiau Strategaeth Ddigidol); a natur amlflwyddyn y fenter a'r cyllid, a roddodd hyder ar gyfer gwaith cynllunio strategol ac ymgysylltu parhaus.

Mae colegau yng Nghymru yn cael eu cydnabod fel sefydliadau sy'n mabwysiadu'r fframwaith yn gynnar, fel arloeswyr, ac fel arweinwyr ym maes dysgu digidol yng Nghymru, yn y DU ac ar lefel ryngwladol. Mae buddsoddi mewn dyfeisiau digidol mwy soffistigedig a gwella cysondeb ag offer, llwyfannau a meddalwedd ddigidol sy'n berthnasol i ddiwydiant yn helpu i baratoi dysgwyr yn well ar gyfer pontio i gyflogaeth.

Mae cynhwysiant digidol a mynediad teg yn flaenoriaethau allweddol i golegau o hyd. Mae cyllid cyfalaf digidol ar gyfer addysg bellach wedi cefnogi cynlluniau benthyca dyfeisiau ac wedi gwella mynediad at ddyfeisiau ac offer digidol sy'n eiddo i golegau a chyfleusterau ar eu campysau.

Mae buddsoddiad mewn seilwaith digidol wedi gwella dibynadwyedd mynediad at wasanaethau a llwyfannau digidol rhwng adrannau a champysau. Mae'r gwelliannau hyn yn hwyluso dulliau cyflwyno digidol gwydn, yn helpu i gyflwyno realiti estynedig a dysgu sy'n cynnwys trochi, ac wedi gosod y sylfeini ar gyfer arloesi pellach.

Roedd newid diwylliant yn drawsnewid sylweddol a bwysleisiwyd gan golegau, ynghyd â chynnydd mewn perchnogaeth gyfunol dros uchelgeisiau digidol a magu hyder i arloesi'n ddigidol. Mabwysiadodd rhai colegau fodel cyd-greu a oedd yn cynnwys dysgwyr. Cyfeiriodd bron i draean o golegau at raglen ‘cennad digidol’ neu ‘hyrwyddwyr digidol’ weithredol ar gyfer dysgwyr yn eu sefydliadau. Gallai dysgwyr a oedd yn cymryd rhan gael eu cynnwys mewn cynlluniau peilot a phrofion defnyddwyr; gweithredu fel sianel ar gyfer adborth gan ddysgwyr; a rhoi cymorth digidol a arweinir gan gymheiriaid i ddysgwyr eraill o bosibl.